FOOD STANDARDS AGENCY
WALES
ASIANTAETH SAFONAU BWYD
CYMRU

Adroddiad ar Wasanaeth Gorfodi Cyfraith Fwyd

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

22 - 26 Tachwedd 2004

Rhagair

Mae archwiliadau o wasanaethau gorfodaeth cyfraith fwyd awdurdodau lleol yn rhan o drefniadau Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru i wella diogelwch a hyder y defnyddiwr o ran bwyd. Mae'r trefniadau hyn yn cydnabod mai cyfrifoldeb awdurdodau unedol, yn bennaf, yw gorfodi cyfraith fwyd sy'n gysylltiedig â diogelwch, hylendid, cyfansoddiad a labelu bwyd, bwyd a fewnforiwyd a bwydydd anifeiliaid. Yn bennaf, caiff y swyddogaethau rheoleiddio hyn sy'n perthyn i awdurdodau lleol, eu cynnig drwy eu Gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach.

Mae'r adroddiad archwilio atodedig yn archwilio Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Fwyd yr awdurdod lleol. Mae'r asesiad yn cynnwys y trefniadau lleol a weithredir ar gyfer archwilio busnesau bwyd a bwydydd anifeiliaid, samplo a dadansoddi, rheolaeth fewnol, hyrwyddo hylendid bwyd a gweithgareddau addysgiadol. Dylid cydnabod y ceir cryn amrywiaeth yn y dull a'r modd y gall awdurdodau gynnig eu gwasanaethau gorfodi bwyd, sy'n adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau lleol.

Mae archwiliadau'r asiantaeth yn asesu cydymffurfiaeth awdurdod lleol yn ôl Safon Gorfodi Cyfraith Fwyd, 'Y Safon', a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth yn rhan o Gytundeb Fframwaith ar Orfodaeth Cyfraith Fwyd Awdurdodau Lleol, ac sydd ar gael ar wefan yr Asiantaeth.

Prif nod y cynllun archwilio yw cynnal a gwella diogelwch a hyder defnyddwyr trwy sicrhau bod awdurdodau lleol yn cynnig gwasanaeth gorfodi cyfraith fwyd effeithiol. Mae'r cynllun hefyd yn rhoi'r cyfle i nodi a lledaenu arfer da a chynnig gwybodaeth i lywio polisi'r Asiantaeth ar ddiogelwch bwyd.

Mae'r adroddiad yn cynnwys ychydig o ddata ystadegol ynghylch, er enghraifft, nifer yr arolygiadau a wnaed ar safleoedd bwyd. Mae gwefan yr Asiantaeth yn cynnwys data am weithgarwch gorfodi holl awdurdodau lleol y DU.

I'ch cynorthwyo, gellir dod o hyd i restr o dermau technegol a ddefnyddir yn yr adroddiad archwilio, yn yr Atodiad.

CYNNWYS Tud.

1	**Cyflwyniad**	4
	Rheswm am yr Archwiliad	4
	Cwmpas yr Archwiliad	4
	Cefndir	4
2	**Crynodeb Gweithredol**	7
	Canfyddiadau'r Archwiliad	
3	Trefnu a Rheoli	9
4	Adolygu a Diweddaru Polisïau a Gweithdrefnau a Ddogfennwyd	11
5	Swyddogion Awdurdodedig	12
6	Cyfleusterau ac Offer	15
7	Archwilio Safleoedd Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid	17
8	Cwynion am Fwyd, Bwydydd Anifeiliaid a Safleoedd Bwyd	21
9	Egwyddor yr Awdurdod Cartref	22
10	Cyngor i Fusnesau	23
11	Cronfa Ddata Safleoedd Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid	24
12	Arolygu a Samplo Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid	25
13	Rheoli ac Ymchwilio i Achosion a Chlefydau Heintus sy'n Ymwneud â Bwyd	27
14	Digwyddiadau Diogelwch Bwyd	28
15	Gorfodaeth	29
16	Cofnodion ac Adroddiadau Arolygu	31
17	Cwynion am y Gwasanaeth	33
18	Cysylltiad â Sefydliadau Eraill	34
19	Monitro Mewnol	35
20	Adolygiad gan Drydydd Parti neu Gydradd	36
21	Hyrwyddo Diogelwch a Safonau Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid	37
Atodiad	Geirfa	38

1 Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cofnodi canlyniadau'r archwiliad o dan benawdau Safon Gorfodi Cyfraith Fwyd yr Asiantaeth Safonau Bwyd, ac mae ar gael i'r cyhoedd ar wefan yr Asiantaeth. Mae copïau caled ar gael o Lyfrgell yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn Aviation House, 125 Kingsway, Llundain WC2B 6NH, Ffôn: 020 7276 8181. Mae'r rhain yn destun ffi o £7.50 ar gyfer eu hatgynhyrchu a'u dosbarthu, yn ogystal â £1.50 ar gyfer eu postio a'u pecynnu.

Rheswm am yr Archwiliad

1.2 Rhoddodd Deddf Safonau Bwyd 1999 y pwer i'r Asiantaeth Safonau Bwyd osod safonau a monitro ac archwilio gwasanaethau gorfodi cyfraith fwyd awdurdodau lleol. Cynhaliwyd archwiliad y gwasanaeth bwyd yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful o dan adran 12(4) y Ddeddf, yn rhan o raglen archwilio flynyddol yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

1.3 Archwiliwyd yr Awdurdod fel rhan o raglen o archwiliadau llawn Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru o bob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru.

Cwmpas yr Archwiliad

1.4 Cwmpas yr archwiliad oedd gwasanaeth gorfodi cyfraith hylendid bwyd, safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid Merthyr Tudful. Cynhaliwyd elfen ar-y-safle'r archwiliad yn swyddfeydd yr Awdurdod ym Merthyr Tudful, rhwng 22 – 26 Tachwedd 2004.

1.5 Aseswyd cydymffurfiaeth yr Awdurdod yn erbyn Y Safon gan yr archwiliad, gan ddefnyddio protocolau archwilio ASB/AP3/1 - ASB/AP21/1. Mabwysiadwyd Y Safon gan Fwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar 21 Medi 2000, (diwygiwyd Mawrth 2002, Mehefin 2003 a Gorffennaf 2004), ac mae'n ffurfio rhan o Gytundeb Fframwaith yr Asiantaeth ag awdurdodau lleol.

1.6 Gellir dod o hyd i'r Cytundeb Fframwaith a'r protocolau archwilio ar wefan yr Asiantaeth.

Cefndir

1.7 Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yw'r awdurdod unedol lleiaf yng Nghymru, ac mae'n cynnwys ardal o ryw 11,200 hectar, gan gynnwys rhan fach o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Rhyw 56,000 yw'r

boblogaeth breswyl, dwy ran o dair ohonynt yn byw yn nhref Merthyr Tudful ei hun.

1.8 Y prif ganolfannau poblogaeth eraill yw pentrefi bach a oedd, ar un adeg, yn gysylltiedig â'r diwydiant cloddio glo a gaewyd yn gynnar yn ystod yr 1980au. Mae diweithdra ym Merthyr Tudful uwchlaw cyfartaledd Cymru, er bod gweithgarwch adwerthu cynyddol yn yr ardal a buddsoddiad mewn datblygu sylfaen weithgynhyrchu eang, gan gynnwys ffatri prosesu cig fawr, wedi dechrau gostwng lefel y diweithdra.

1.9 Mae'r Awdurdod yn adrodd ei fod yn gyfrifol am orfodi mewn rhyw 545 o fusnesau bwyd yn yr ardal. Fodd bynnag, mae gweithrediad y gronfa ddata yn atal yr Awdurdod rhag adrodd ffigur union gywir.

1.10 Cymeradwywyd un busnes bwydydd anifeiliaid gan Gymdeithas Fferyllol Frenhinol Prydain Fawr a'r Awdurdod, a rhennir cyfrifoldeb am orfodi rhyngddynt. Hefyd, mae 89 o ffermydd yn yr ardal, er na chredid bod unrhyw un ohonynt yn gymysgwyr ar-y-fferm.

1.11 Mae busnesau bwyd yn cynnwys ystod o fathau o fusnesau, gan gynnwys adwerthu, gweithgynhyrchu, arlwyo a phrosesu. Cymeradwywyd un sefydliad i gynhyrchu cynhyrchion cig o dan reoliadau hylendid bwyd penodol i gynnyrch.

1.12 Cyfrifoldeb Gwasanaeth Iechyd y Cyhoedd yw gorfodi cyfraith hylendid bwyd, a chyfrifoldeb y Gwasanaeth Safonau Masnach yw gorfodi cyfraith safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid. Mae'r ddwy adain yn rhan o Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Corfforaethol Cwsmeriaid yr Awdurdod.

1.13 Roedd Swyddfeydd y Cyngor ar agor rhwng 08:30 - 17:00 o ddydd Llun i ddydd Iau, a rhwng 08:30 - 16:30 ddydd Gwener. Yn ystod cyfnodau eraill, gweithredai'r Cyngor wasanaeth cyffredinol ar gyfer achosion brys y tu allan i oriau gwaith y gellid ei ddefnyddio i gysylltu â swyddogion, a ymatebai ar sail ewyllys da yn hytrach nag ar sail gwasanaeth wrth gefn. Gallai staff y ganolfan alwadau brys yn y Ganolfan Ddinesig gysylltu â staff, ond ni weithredid system i ymateb i faterion rhybuddion bwyd y tu allan i oriau gwaith arferol.

1.14 Lleolid swyddogion arweiniol gorfodi hylendid bwyd a gorfodi safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid yr Awdurdod ym mhencadlys yr Awdurdod ym Merthyr Tudful.

Adnoddau

1.15 Nodai Cynllun Cyflwyno Gwasanaeth Safonau Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid 2004-2005 fod gan yr Awdurdod 1 swyddog cyfwerth ag amser llawn (FTE) yn ymwneud â gorfodi cyfraith a safonau bwyd. Ni nodwyd nifer y staff a oedd yn ymwneud â gorfodi hylendid bwyd ym Mlaenoriaethau Gwasanaeth Iechyd y Cyhoedd, ond nodwyd mai 2.35 FTE ydoedd mewn dogfennaeth cyn-arolygu.

1.16 Dyraniad cyllideb yr Awdurdod ar gyfer gwasanaethau gorfodi hylendid bwyd, safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid yn ystod 2004-2005 oedd:

	Hylendid Bwyd a chlefydau heintus	**Safonau Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid**
Staffio	£116,690	£20,700
Hyfforddiant	£700	£430
Teithio a Chynhaliaeth	£4,050	£840
Samplo	£2,100	£9,460
Arall	£11,500	£2,020
Incwm	(£2,800)	£0
Cyfanswm	**£132,240**	**£33,450**

2 Crynodeb Gweithredol

2.1 Roedd yr Awdurdod yn cynnig gwasanaeth gorfodi cyfraith fwyd cynhwysfawr ac effeithiol. Gwnaed nifer o'i weithgareddau, gan gynnwys arolygu safleoedd hylendid bwyd cyffredinol a Chymeradwy, trwyddedu siopau cigyddion a samplo bwyd, mewn ffordd arbennig o drylwyr. Roedd cofnodion ynghylch y gweithgareddau hyn yn ogystal â Rhybuddion Gwella ac erlyniadau yn gyflawn ac yn fanwl.

2.2 Mae rheoli gwasanaeth gorfodi cyfraith fwyd a bwydydd anifeiliaid modern, effeithiol ac effeithlon yn dibynnu ar system rheoli data a gwybodaeth sy'n gywir a chyfredol. Adeg yr archwiliad, nodwyd diffygion sylweddol o ran ansawdd a chywirdeb data.

2.3 Cydnabuwyd pwysigrwydd cynnig hyfforddiant i swyddogion gorfodi cyfraith fwyd, a mynychwyd nifer o gyrsiau ar amrywiaeth o bynciau perthnasol ganddynt. Roedd yr Awdurdod hefyd yn cyflawni ei gyfrifoldebau fel Awdurdod Cartref safonau bwyd yn effeithiol. Roedd cofnodion am y gweithgareddau hyn yn drylwyr ac yn gyflawn.

2.4 Cryfderau'r Awdurdod

Hyfforddiant
Rhoddwyd nifer o gyfleoedd i swyddogion gymryd rhan mewn digwyddiadau hyfforddi, ac roedd yn amlwg bod y rheiny a oedd yn gorfodi cyfraith fwyd yn bodloni gofynion datblygiad parhaus Cod Ymarfer Rhif 19 y Ddeddf Diogelwch Bwyd.

Samplo
Roedd samplo safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid yn cael ei wneud yn unol â pholisïau a rhaglenni samplo'r awdurdod. Cedwid cofnodion ffeil yn dda a chymerwyd camau dilynol priodol.

Arolygu Safleoedd Hylendid Bwyd Cyffredinol a Chymeradwy
Roedd arolygiadau ar Safleoedd Cyffredinol a Chymeradwy yn drylwyr ac yn gynhwysfawr. Roedd yn amlwg bod hyn yn cynnwys rhoi sylw manwl i ddadansoddi perygl/HACCP fel y bo'n briodol, a bod camau dilynol yn cael eu cymryd i sicrhau cydymffurfiad o ran hylendid bwyd a gwelliant yn y safleoedd hyn.

Trwyddedu Siopau Cigyddion
Hefyd, roedd siopau cigyddion yn cael eu trwyddedu mewn ffordd arbennig o gynhwysfawr. Llenwyd ffurflenni safonol yn systematig gan swyddogion, gan gofnodi gweithgareddau busnes, hyfforddiant ar hylendid bwyd, systemau HACCP ac asesiad o gydymffurfio.

Cofnodion
Roedd cofnodion o ran Hylendid Bwyd Cyffredinol, safleoedd cigyddion Cymeradwy a thrwyddedig, Rhybuddion Gwella, hylendid bwyd ac erlyniadau safonau bwyd yn fanwl ac yn gynhwysfawr eu natur.

Adroddiadau Arolygiadau Diogelwch Bwyd ynghylch Safleoedd Cyffredinol a Chymeradwy
Esboniai Adroddiadau Arolygiadau Hylendid Bwyd yn eglur pam bod angen gwneud y gwaith. Gwahaniaethwyd rhwng deddfwriaeth ac argymhellion, a chynhwysid cyfeiriadau manwl at y ddeddfwriaeth benodol yr aed yn groes iddi. Anfonwyd adroddiadau yn amserol, yn unol â gweithdrefn yr Awdurdod.

Safle Awdurdod Cartref Safonau Bwyd
Roedd tystiolaeth y ceid gweithgarwch safonau bwyd a dargedwyd (gan gynnwys arolygiadau, cyngor a samplo) yn Safle'r Awdurdod Cartref, a alluogai'r Awdurdod i gyflawni ei gyfrifoldeb fel Awdurdod Cartref yn effeithiol.

2.5 **Maes Allweddol ar gyfer ei Wella gan yr Awdurdod**

Y Gronfa Ddata
Roedd cywirdeb y gronfa ddata yn bryder mawr i'r archwilwyr. Effeithiai'r anghywirdebau ar allu'r gwasanaeth i gynllunio rhaglen waith effeithiol a chynhyrchu data monitro perfformiad cynhwysfawr. Effeithiai hefyd ar allu'r Awdurdod i gyflenwi ystadegau priodol i lywodraeth ganolog.

Canfyddiadau'r Archwiliad

3 Trefnu a Rheoli

3.1 Nodwyd rhaglen o welliannau arfaethedig yng Nghynllun Gwella 2003-2006 yr Awdurdod, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2003. Cynhwysai hyn datblygu Cynllun Gweddnewid ar sail yr amcan craidd o ddod yn Gyngor perfformiad uchel rhagorol, gydag ymrwymiad i wella gwasanaethau o ansawdd uchel i fodloni anghenion ei gwsmeriaid.

3.2 Ymgymerodd yr Awdurdod ag aildrefnu ym mis Ionawr 2004 a chynigiodd ei wasanaethau drwy 6 Chyfarwyddiaeth. Gorfodwyd cyfraith fwyd gan dimau'r Gwasanaeth Safonau Masnach a Gwasanaeth Iechyd y Cyhoedd oddi mewn i Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Corfforaethol Cwsmeriaid.

3.3 Roedd gan yr Awdurdod Gynllun Cyflwyno Gwasanaeth Safonau Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid ar gyfer 2004-2005, a gymeradwywyd gan Gabinet yr Awdurdod ar 8 Medi 2004. Dogfennwyd adroddiadau monitro chwarterol ynghylch gweithgareddau'r Gwasanaeth Safonau Masnach i'r Aelodau. Fodd bynnag, ni chynhaliwyd adolygiad perfformiad blynyddol ar sail y Cynllun Gwasanaeth na'i adrodd i'r fforwm Aelodau priodol, ac ni ymdriniwyd ag amrywiannau o Gynllun y flwyddyn flaenorol yn nhrefniadau gwasanaeth y flwyddyn olynol.

3.4 Cynhwysai Cynllun Gwasanaeth 2004-2005 gysylltiadau â Nodau ac Amcanion y Gwasanaeth Safonau Masnach ac Amcanion a Chynlluniau Corfforaethol yr Awdurdod. Roedd amcanion 'Adfywio Economaidd', trwy greu a chynnal economi ffyniannus, a 'Dysgu Gydol Oes', a oedd yn cynnwys cynnig cyngor i fusnesau a defnyddwyr, yn arbennig o berthnasol.

3.5 Nid oedd Cynllun Cyflwyno Gwasanaeth ar gyfer hylendid bwyd, ond roedd y ddogfen 'Blaenoriaethau Gwasanaeth Adain Iechyd y Cyhoedd' yn cynnwys rhai o elfennau'r Arweiniad Cynllunio Gwasanaeth. Roedd adnoddau ariannol y gwasanaeth ar gael ar wahân.

3.6 Fodd bynnag, nid oedd unrhyw broffil cyflawn o risg safleoedd nac unrhyw amcangyfrif o'r adnoddau staff yr oedd eu hangen i gynnig y gwasanaeth gorfodi hylendid bwyd. Nid oedd unrhyw dystiolaeth y cyflawnwyd adolygiad perfformiad llawn ar sail Cynllun Gwasanaeth y flwyddyn flaenorol, ac ni nodwyd unrhyw amrywiannau.

3.7 Mae'r Cytundeb Fframwaith yn rhoi hyblygrwydd i Awdurdod gynnal ei arddull ei hun o gynllunio gwasanaethau corfforaethol, ond dylai'r

Awdurdod sicrhau y caiff gofynion gwybodaeth yr Arweiniad Cynllunio Gwasanaeth yn y Cytundeb Fframwaith eu cynnwys a'u bod yn adnabyddadwy ar wahân yn ei ddogfennau.

Argymhellion

3.8 Dylai'r Awdurdod:

(i) Lunio, dogfennu a gweithredu Cynllun Cyflwyno Gwasanaeth hylendid bwyd yn unol â'r Arweiniad Cynllunio Gwasanaeth ym Mhennod 1 y Cytundeb Fframwaith. [Y Safon – 3.1]

(ii) Cynnal adolygiad perfformiad ar sail ei Gynllun(iau) Cyflwyno Gwasanaeth o leiaf yn flynyddol. Dylid dogfennu'r adolygiad(au) a'i gyflwyno/eu cyflwyno er mwyn ei Gymeradwyo/eu Cymeradwyo gan yr Aelodau priodol. [Y Safon – 3.2]

(iii) Sicrhau yr ymdrinnir ag unrhyw amrywiant o ran bodloni'r Cynllun(iau) Cyflwyno Gwasanaeth yn nhrefniadau gwasanaeth y flwyddyn olynol. [Y Safon – 3.3]

4 Adolygu a Diweddaru Polisïau a Gweithdrefnau a Ddogfennwyd

4.1 Roedd gan yr Awdurdod system i sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau dogfenedig ar gyfer gweithgareddau gorfodi a gynhwysid yn Y Safon yn cael eu hadolygu a'u diweddaru yn ôl y gofyn. Cynhelid adolygiadau pan a phryd y byddid eu hangen, er na ddogfennwyd y system.

4.2 Cynhyrchwyd polisïau a gweithdrefnau dogfenedig ar gyfer gweithgareddau gorfodi hylendid bwyd, safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid a gynhwysir yn Y Safon, gan gynnwys Llawlyfr Safonau Masnach.

4.3 Roedd copïau rheoledig o ddogfennau ar gael i swyddogion ar y Mewnrwyd corfforaethol, a chawsent eu cynnal gan swyddogion enwebedig. Roedd pob un yn gyfoes, ar wahân i'r weithdrefn ddogfenedig ar gyfer awdurdodi swyddogion.

4.4 Roedd gan swyddogion fynediad at gopïau cyfredol o ddogfennau perthnasol, gan gynnwys deddfwriaeth, Codau Ymarfer y Ddeddf Diogelwch Bwyd, Canllawiau Diwydiannol, a dogfennaeth briodol arall.

Argymhelliad

4.5 Dylai'r Awdurdod:

Sicrhau y caiff y weithdrefn ddogfenedig ar gyfer awdurdodi swyddogion ei hadolygu. [Y Safon - 4.1]

5 Swyddogion Awdurdodedig

5.1 Mabwysiadwyd Cyfansoddiad gan yr Awdurdod ym mis Mai 2002, a adolygwyd wedi hynny, ac a gynhwysai Gynllun Dirprwyo lle'r oedd gan Arweinydd Grwp Iechyd y Cyhoedd a Phennaeth Safonau Masnach bwer i awdurdodi swyddogion i orfodi'r Ddeddf Diogelwch Bwyd.

5.2 Roedd gweithdrefn ddogfenedig ar gyfer awdurdodi swyddogion a gyfeiriai yn ôl at benderfyniad pwyllgor ym 1996. Nid oedd hon yn gyfredol ac roedd angen ei hadolygu i sicrhau ei bod yn cyfeirio at Gyfansoddiad presennol yr Awdurdod.

5.3 Nodai'r weithdrefn ddogfenedig y byddai swyddogion a gynhaliai arolygiadau hylendid bwyd a safonau bwyd yn gymwys, yn unol â Chod Ymarfer Rhif 19 y Ddeddf Diogelwch Bwyd, ac mai dim ond o dan oruchwyliaeth uniongyrchol swyddog cwbl gymwys y gallai swyddogion o dan hyfforddiant ymgymryd ag arolygiad.

5.4 Llofnodwyd dogfennau awdurdodi swyddogion yn briodol, ac roedd y rheiny ar gyfer gorfodi hylendid bwyd yn gwahaniaethu'n eglur rhwng lefelau awdurdod, a oedd yn ymwneud â'r cymwysterau a'r profiad a nodwyd yn y Cod Ymarfer.

5.5 Roedd gan swyddogion a oedd yn gorfodi hylendid bwyd gymwysterau priodol i lefelau eu hawdurdod. Fodd bynnag, nodwyd y cynhelid nifer o'r arolygiadau hylendid bwyd gan swyddogion nad oeddent yn bodloni gofynion Cod Ymarfer Rhif 19 y Ddeddf Diogelwch Bwyd.

5.6 Roedd gan swyddogion yr Adain Safonau Masnach a oedd yn gorfodi safonau bwyd, gymwysterau priodol. Hefyd, roedd gan swyddogion nad oeddent yn gorfodi safonau bwyd awdurdod generig a oedd yn caniatáu iddynt wneud hynny. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw dystiolaeth bod y swyddogion hyn wedi cynnal unrhyw weithgareddau gorfodi cyfraith fwyd. Rhaid i bob swyddog a awdurdodir i orfodi'r Ddeddf Diogelwch Bwyd gyflawni o leiaf 10 awr o hyfforddiant diweddaru sy'n ymwneud â bwyd, bob blwyddyn.

5.7 Hefyd, nodai'r weithdrefn ddogfenedig y byddid yn nodi ac yn cyflawni hyfforddiant diweddaru a gloywi, ac y byddai'n ofynnol i swyddogion newydd gyflawni lleiafswm o 15 awr o hyfforddiant adolygu cyn gweithio ar eu pennau eu hunain ar weithgareddau gorfodi'r Ddeddf Diogelwch Bwyd.

5.8 Er nad oedd unrhyw gynllun arfarnu a datblygu corfforaethol, gwnaed asesiad cynhwysfawr o anghenion hyfforddiant yr holl swyddogion

gorfodi cyfraith fwyd. Dogfennwyd anghenion hyfforddiant pob swyddog yn dda, a chofnodwyd a monitrwyd eu gofynion.

5.9 Er nad oedd rhaglen hyfforddiant ddogfenedig, cawsai swyddogion nifer o gyfleoedd i gymryd rhan mewn digwyddiadau hyfforddi perthnasol, ac roedd tystiolaeth ddogfenedig dda bod gofynion datblygiad parhaus yn cael eu bodloni. Hefyd, roedd tystiolaeth o hyfforddiant o ran gofynion a gweithdrefnau PACE, CPIA a RIPA.

5.10 Roedd swyddogion a oedd yn gyfrifol am gymeradwyo ac arolygu sefydliadau o dan ddeddfwriaeth hylendid bwyd penodol i gynnyrch, ac am arolygu a thrwyddedu siopau cigyddion, wedi derbyn hyfforddiant ar egwyddorion ac arferion HACCP. Fodd bynnag, roedd yr Awdurdod wedi nodi bod ar ddau swyddog angen yr hyfforddiant hwn cyn cyflawni'r fath ddyletswyddau.

5.11 Hyfforddwyd swyddogion a oedd yn arolygu busnesau bwyd ac iddynt radd risg 'uchel' ar gyfer safonau bwyd, a busnesau bwyd â systemau sicrwydd ansawdd dogfenedig, i lefel aseswr arweiniol sicrwydd ansawdd.

5.12 Roedd cofnodion o hyfforddiant a chymwysterau'r holl swyddogion ar gael, ac roeddent yn gynhwysfawr ac wedi'u cadw'n dda.

5.13 Nodwyd na awdurdodwyd rhai swyddogion i orfodi Rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd neu Ddeddf Diogelu Bwyd a'r Amgylchedd, a bod cwmpas yr awdurdodiad dogfenedig, lle cafodd ei ganiatáu, yn amrywio rhwng swyddogion.

5.14 Roedd yr Awdurdod wedi penodi Swyddogion arweiniol priodol â chanddynt gyfrifoldeb am orfodi cyfraith hylendid bwyd a safonau bwyd, fel sy'n ofynnol gan God Ymarfer Rhif 19 y Ddeddf Diogelwch Bwyd, ac am orfodi deddfwriaeth bwydydd anifeiliaid.

5.15 Nodwyd bod dogfen Blaenoriaethau Gwasanaeth Adain Iechyd y Cyhoedd ar gyfer 2004-2005 yn nodi bod cyrraedd targedau yn dibynnu ar fod swyddogion yn gweithio ar nifer sylweddol o nosweithiau a phenwythnosau. O ganlyniad i hyn, rhoddwyd gwybod i'r archwilwyr mai dim ond 40% o gyfanswm yr arolygiadau a oedd i'w gwneud oedd y nod ar gyfer arolygu safleoedd risg isel.

Argymhellion

5.16 Dylai'r Awdurdod:

(i) Adolygu a diweddaru'r weithdrefn ddogfenedig ar gyfer awdurdodi swyddogion, a sicrhau y caiff ei gweithredu'n llawn. [Y Safon – 5.1]

(ii) Sicrhau ei fod yn penodi digon o swyddogion i wneud y gwaith a nodir yn y Cynllun(iau) Gwasanaeth, a bod gan y swyddogion a awdurdodwyd ganddo o dan y Ddeddf Diogelu Bwyd gymwysterau, hyfforddiant a phrofiad addas, yn gyson â'u hawdurdodiad â'u dyletswyddau ac yn unol â Chod Ymarfer perthnasol y Ddeddf Diogelwch Bwyd. [Y Safon – 5.3]

(iii) Sefydlu, cynnal a gweithredu rhaglen hyfforddi ddogfenedig. [Y Safon – 5.4]

6 Cyfleusterau ac Offer

6.1 Roedd yr Awdurdod wedi achosi bod y cyfleusterau a'r offer angenrheidiol i allu cynnal gweithgareddau a oedd yn ymwneud â'r gwasanaeth, ar gael.

6.2 Cynhwysai offer monitro tymheredd offer sgrinio cyflym isgoch, thermomedrau profi electronig safonol, a thermomedr profi trachywir at ddibenion gorfodi.

6.3 Defnyddid cofnodion data i gynnal gwiriadau misol ar dymheredd oergelloedd a rhewgelloedd, ac ar adegau eraill fe'u defnyddid i fonitro busnesau bwyd.

6.4 Roedd gweithdrefn ddogfenedig ar gyfer calibro'r thermomedrau profi safonol, er nad oedd yn manylu'r ffiniau goddefiant a ganiatawyd, na'r camau i'w cymryd pan aed y tu hwnt i'r ffiniau goddefiant hyn.

6.5 Gwiriwyd offer monitro tymheredd yn fisol, yn unol â'r weithdrefn.

6.6 Yn gyffredinol, ystyrid bod y gronfa ddata safleoedd yn gallu cynnig y wybodaeth sy'n ofynnol gan Asiantaeth Safonau Bwyd. Diweddarwyd y system yn ddiweddar.

6.7 Yn ystod yr archwiliad, daeth yn amlwg nad oedd y system yn cael ei gweithredu a'i rheoli mewn ffordd a olygai y gallai ddarparu gwybodaeth a oedd yn ofynnol gan yr Asiantaeth, yn rhwydd. Ymddangosai y dygwyd gwallau yn y data ymlaen o'r hen system i'r un newydd, ac roedd angen ymdrin â nhw er mwyn ailsefydlu hyder yng nghywirdeb a chyfanrwydd y system.

6.8 Cyfrifoldeb gweinyddwyr nad oeddent yn gweithio yn nhimau Iechyd y Cyhoedd neu Safonau Masnach oedd bwydo data i mewn.

6.9 Gweithredid systemau diogelwch ac wrth gefn i leihau'r perygl o lygru neu golli gwybodaeth a gedwid ar y gronfa ddata.

Argymhellion

6.10 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sicrhau bod ei weithdrefn ddogfenedig ar gyfer cynnal a chalibro offer yn cynnwys ffiniau goddefiant derbyniol a threfniadau ar gyfer eu gwaredu o ddefnydd pan fyddant yn ddiffygiol.
[Y Safon – 6.2].

(ii) Sicrhau y gweithredir ei becyn meddalwedd gyfrifiadurol yn y fath fodd fel y gall ddarparu'r wybodaeth ofynnol i'r Asiantaeth.
[Y Safon – 6.4]

7 Archwilio Safleoedd Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

Hylendid Bwyd

7.1 Nodai dogfen Blaenoriaethau Gwasanaeth Iechyd y Cyhoedd y seiliwyd rhaglen arolygu arfaethedig hylendid bwyd yr Awdurdod ar asesiadau risg, yn unol â Chod Ymarfer Rhif 9 y Ddeddf Diogelwch Bwyd. Byddai'r canolbwyntio ar arolygu busnesau yng nghategorïau risg A i C. Dim ond 40% o'r rheiny a oedd i fod i gael eu harolygu mewn categorïau risg is, a gâi eu harolygu.

7.2 Roedd y weithdrefn ddogfenedig ar gyfer arolygiadau hylendid bwyd yn cynnwys arolygiadau hylendid bwyd cyffredinol, ond nid arolygu a thrwyddedu siopau cigyddion neu arolygu a chymeradwyo sefydliadau sy'n destun rheoliadau hylendid bwyd penodol i gynnyrch.

7.3 Archwiliwyd cofnodion naw safle a archwiliwyd o dan reoliadau hylendid bwyd cyffredinol, un a gymeradwywyd ac a arolygwyd o dan reoliadau hylendid bwyd penodol i gynnyrch, a saith siop cigydd drwyddedig.

7.4 Arolygwyd wyth o'r naw safle a oedd yn destun y rheoliadau hylendid bwyd cyffredinol yn ôl yr amlder cywir, fel a bennwyd gan God Ymarfer Rhif 9 y Ddeddf Diogelwch Bwyd. Dim ond yn ddiweddar y cymeradwywyd y safle a oedd yn destun rheoliadau hylendid bwyd penodol i gynnyrch.

7.5 Yn ystod yr archwiliad, cafodd yr Awdurdod broblemau o ran cynhyrchu adroddiadau dibynadwy o'r gronfa ddata. Nodai un adroddiad bod 108 o arolygiadau hylendid bwyd yn hwyr, 9 ohonynt yng nghategorïau risg B - C, a 99 yng nghategorïau risg D - F. Roedd yr arolygiadau hwyr yng nghategorïau risg B - C yn rhan o raglen arolygu 2004-2005, ond roedd y lleill yn hwyr o raglenni arolygu blynyddoedd cynt, yn mynd yn ôl i 2000 - 2001.

7.6 Hefyd, dangosai adroddiad y gronfa ddata nad oedd gan 39 o safleoedd bwyd ddyddiad eu harolygiad hylendid bwyd nesaf, 28 ohonynt heb unrhyw radd risg o ran hylendid bwyd.

7.7 Cyflawnwyd a chofnodwyd arolygiadau hylendid bwyd yn systematig, ac yn unol â deddfwriaeth berthnasol, Cod Ymarfer Rhif 9 y Ddeddf Diogelwch Bwyd ac arweiniad arall a gyhoeddwyd yn ganolog.

7.8 Cynhwysai cofnodion ynghylch y saith cigydd trwyddedig dystiolaeth yr aseswyd cydymffurfiad â Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Hylendid Bwyd

yn Gyffredinol) ac y seiliwyd y penderfyniad i ganiatáu trwydded ar feini prawf perthnasol.

7.9 Cynhwysai cofnodion ynghylch un sefydliad a gymeradwywyd o dan reoliadau hylendid bwyd penodol i gynnyrch, wybodaeth fanwl am gyfleusterau, gweithrediadau'r safle, cynhyrchion a gynhyrchid, a samplo a wnaed. Dangosai cofnodion arolygu cyn-cymeradwyo a dogfennau cymeradwyo y seiliwyd y penderfyniad i gymeradwyo ar ystyriaeth drylwyr o'r holl feini prawf cymeradwyo perthnasol.

Argymhellion

7.10 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sicrhau y cynhelir arolygiadau hylendid bwyd yn ôl amlder nad yw'n llai na'r hwnnw a bennir o dan y system graddio arolygiadau a nodir yn y ddeddfwriaeth berthnasol, Cod Ymarfer Rhif 9 y Ddeddf Diogelwch Bwyd, ac arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog. [Y Safon – 7.1]

(ii) Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefnau arolygu dogfenedig ar gyfer siopau cigyddion a Safleoedd Cymeradwy. [Y Safon – 7.4]

Safonau Bwyd

7.11 Roedd gan yr Awdurdod weithdrefn ddogfenedig ar gyfer arolygiadau safonau bwyd, a nodai Cynllun Cyflwyno y Gwasanaeth Safonau Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid y seiliwyd rhaglen arolygu arfaethedig safonau bwyd yr Awdurdod ar asesiadau risg o dan gynllun LACORS a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2004.

7.12 Archwiliwyd cofnodion deg o arolygiadau safonau bwyd a wnaed yn ystod y deuddeg mis cyn yr archwiliad. Dangosai'r rhain yr arolygwyd pump ohonynt yn ôl yr amlder cywir, fel a bennwyd gan God Ymarfer Rhif 8 y Ddeddf Diogelwch Bwyd. Nid oedd unrhyw wybodaeth ar ffeil ynghylch tri o'r deg arolygiad.

7.13 Yn ystod yr archwiliad, yn sgil problemau a nodwyd o ran gweithredu a rheoli'r gronfa ddata, roedd yn amlwg na ellid gweithredu'r rhaglen arolygu safonau bwyd arfaethedig yn effeithiol. Nid oedd arolygiadau safonau bwyd yn cael eu cynnal yn ôl yr amlder sylfaenol a bennwyd gan raddio risg safonau bwyd, ac ni roddwyd dyddiad eu harolygiad safonau bwyd nesaf i 82 o safleoedd bwyd ar y gronfa ddata.

7.14 Yn achos wyth o'r deg safle a wiriwyd, cynhaliwyd gweithgarwch safonau bwyd digonol, gydag unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn cael ei nodi a'i gyfleu i'r busnes. Ar gyfer y ddau safle arall, nid oedd yn bosibl canfod cwmpas y gweithgarwch safonau bwyd a gyflawnwyd. Roedd arolygiadau Safleoedd yr Awdurdod Cartref a wiriwyd wedi'u targedu ac yn drylwyr.

7.15 Yn ystod yr archwiliad, cafodd yr Awdurdod broblemau o ran cynhyrchu adroddiadau dibynadwy o'r gronfa ddata. Nodai un adroddiad bod 24 o arolygiadau safonau bwyd yn hwyr, 2 ohonynt yn rhai risg uchel, 21 yn risg canolig ac 1 yn risg isel. Roedd mwyafrif yr arolygiadau yn hwyr o raglen arolygu 2003 – 2004. Nid oedd un o'r safleoedd risg uchel yn gweithredu fel busnes bwyd ac, yn hynny o beth, rhoddwyd y cod anghywir iddo, a rhoddwyd gwybod i'r archwilwyr bod rhai o'r arolygiadau eraill a oedd yn hwyr yn ymwneud â safleoedd a oedd wedi cau.

7.16 Hefyd, dangosai adroddiad y gronfa ddata nad oedd gan 80 o safleoedd ddyddiad eu harolygiad safonau bwyd nesaf, 58 ohonynt heb unrhyw radd risg safonau bwyd.

Argymhelliad

7.17 Dylai'r Awdurdod:

Sicrhau y cynhelir arolygiadau safonau bwyd yn ôl amlder nad yw'n llai na hwnnw a bennir o dan y system graddio arolygiadau a nodir yn y ddeddfwriaeth berthnasol, Cod Ymarfer Rhif 8 y Ddeddf Diogelwch Bwyd, ac arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog. [Y Safon - 7.1]

Bwydydd Anifeiliaid

7.18 Roedd gweithdrefn arolygu bwydydd anifeiliaid ddogfenedig.

7.19 Roedd gweithgarwch gorfodi ar y gweill ar y cyd â Chymdeithas Fferyllol Frenhinol Prydain Fawr o ran busnes a gymeradwywyd o dan Reoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Sefydliadau a Chyfryngwyr) 1999.

7.20 Hefyd, nododd yr Awdurdod 89 o ffermydd defaid, mân-ddaliadau a chyndai helfa yn ei ardal a oedd, o bosibl, yn destun gorfodi cyfraith bwydydd anifeiliaid. Ymwelwyd â phob un o'r rhain a'u hasesu gan

Swyddog Iechyd Anifeiliaid yr Awdurdod, a chanfuwyd nad cymysgwyr ar-y-fferm oeddent.

7.21 Archwiliwyd cofnodion pump o arolygiadau safleoedd bwydydd anifeiliaid. Mewn tri o'r achosion hyn, nid oedd yn bosibl canfod cwmpas llawn yr arolygiad, ond roedd yn amlwg y bu pob un o'r 5 arolygiad mewn cysylltiad â gweithgynhyrchu neu werthu bwyd anifeiliaid anwes.

Argymhelliad

7.22 Dylai'r Awdurdod:

Asesu cydymffurfiad safleoedd bwydydd anifeiliaid Cymeradwy a chofrestredig yn ei ardal â safonau cyfreithiol rhagnodedig.
[Y Safon – 7.3]

8 Cwynion am Fwyd, Bwydydd Anifeiliaid a Safleoedd Bwyd

8.1 Roedd gan yr Awdurdod bolisi a gweithdrefnau dogfenedig a gynhwysai ymchwilio i gwynion am fwyd, cwynion am fwydydd anifeiliaid a chwynion am hylendid safleoedd bwyd.

8.2 Archwiliwyd cofnodion naw o gwynion am hylendid bwyd ac wyth o gwynion am safonau bwyd a'u cymharu yn erbyn Cod Ymarfer perthnasol y Ddeddf Diogelwch Bwyd, arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog, a gweithdrefnau dogfenedig yr Awdurdod ei hun.

8.3 Yn gyffredinol, ymchwilid i gwynion am fwyd yn drylwyr ac yn briodol, gyda manylion cynhwysfawr ar ffeil, er bod un gwyn am hylendid bwyd, mewn gwirionedd, yn gais am wasanaeth a gofnodwyd yn anghywir, ac roedd un arall yn ymwneud â chwyn am brisio.

8.4 Ni chafwyd unrhyw gwynion am fwydydd anifeiliaid yn ystod y ddwy flynedd cyn yr archwiliad.

9 Egwyddor yr Awdurdod Cartref

9.1 Nododd Cynllun Cyflwyno Gwasanaeth Safonau Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid mai polisi'r Gwasanaeth Safonau Masnach oedd cynorthwyo busnesau'r Awdurdod Cartref i gydymffurfio â deddfwriaeth bwyd a bwydydd anifeiliaid ac ymateb i awdurdodau eraill ynghylch cwmnïau yn yr ardal. Nid oedd Blaenoriaethau Gwasanaeth Iechyd y Cyhoedd yn cyfeirio at Egwyddor yr Awdurdod Cartref.

9.2 Nid oedd gan yr Awdurdod unrhyw Gytundebau Awdurdod Cartref ffurfiol, ond rhestrai Cynllun Cyflwyno Gwasanaeth Safonau Bwyd dri busnes bwyd ac un busnes bwydydd anifeiliaid yr oedd gan yr Awdurdod drefniadau Awdurdod Cartref anffurfiol â nhw.

9.3 Cofrestrwyd busnesau yr oedd yr Awdurdod yn ymddwyn yn Awdurdod Cartref ar eu cyfer ar wefan LACORS, er y nodwyd fod y rhestr yn anghyflawn ac nad oedd wedi cael ei diweddaru ers mis Ionawr 2004.

9.4 Cadarnhâi gweithdrefnau dogfenedig bod cysylltu ag Awdurdodau Cartref a Gwreiddiol, lle bai'n briodol, yn rhan annatod o brosesau gorfodi'r Awdurdod.

9.5 Roedd cofnodion a archwiliwyd ynghylch gweithgarwch Awdurdod Cartref yn gynhwysfawr ac wedi'u cadw'n dda, ac yn dangos bod Egwyddor yr Awdurdod Cartref yn cael ei gweithredu'n effeithiol. Roedd tystiolaeth o arolygiadau rheolaidd, samplo, cyfarfodydd, cyngor a chydweithio yn Safle'r Awdurdod Cartref.

9.6 Cynhaliwyd ymarfer manwl gan yr Awdurdod ar olrhain, a ddilynai fwyd a adwerthir drwy'r gadwyn fwyd yn ôl i'r cyfnod cynhyrchu cynharaf.

9.7 Gweithredid yn briodol ynghylch ceisiadau am wybodaeth gan awdurdodau gorfodi eraill, ac ymwelid â busnesau'r Awdurdod Cartref o leiaf yn flynyddol, yn unol â'r weithdrefn ddogfenedig a Llawlyfr Safonau Masnach.

10 Cyngor i Fusnesau

10.1 Roedd yr Awdurdod yn helpu busnesau lleol i gydymffurfio â chyfraith fwyd a bwydydd anifeiliaid, ac roedd nifer o fentrau'n cael eu gweithredu. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Taflenni a phosteri am hylendid a diogelwch bwyd;
- Cyfarfodydd y Clwb Busnes Datblygu Economaidd;
- Pecyn arweiniol hunangymorth HACCP;
- Ymweliadau labelu cynnyrch cig a dargedir;
- Cyngor a chysylltiadau am fusnes ar wefan yr Awdurdod;
- Cyngor i fusnesau newydd.

10.2 Roedd tystiolaeth y darparwyd cyngor ar gais, yn ystod arolygiadau, a thrwy dargedu sectorau busnes bwyd penodol, gan gynnwys safleoedd trwyddedig, cigyddion, arlwywyr a gwneuthurwyr brechdanau.

10.3 Nid oedd tystiolaeth y rhoddwyd unrhyw gyngor i fusnesau bwydydd anifeiliaid.

Argymhelliad

10.4 Dylai'r Awdurdod:

Estyn ei gyngor i fusnesau i gynnwys bwydydd anifeiliaid.
[Y Safon – 10.1]

11 Cronfa Ddata Safleoedd Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

11.1 Roedd gan yr Awdurdod gronfa ddata o safleoedd yn ei ardal a oedd yn destun gorfodaeth bwyd a bwydydd anifeiliaid.

11.2 Dewisodd yr archwilwyr 22 busnes ar hap o gategorïau mewn cyfeiriadur busnes lleol a ymddangosai ei fod yn cynnwys busnesau bwyd. Cofnodwyd pob un o'r 22 busnes yn fusnesau bwyd ar y gronfa ddata, a'u cynnwys yn rhaglenni arolygu arfaethedig yr Awdurdod.

11.3 Dangosai adroddiadau a gynhyrchwyd i'r archwilwyr o'r gronfa ddata na raddiwyd nifer o safleoedd o ran risg hylendid bwyd a/neu safonau bwyd.

11.4 Cafwyd trafferthion tynnu gwybodaeth am arolygiadau hylendid bwyd a safonau bwyd hwyr o'r gronfa ddata yn ystod yr archwiliad. Golygai hyn nad oedd yn bosibl i'r archwilwyr gwblhau eu harchwiliad ar-y-safle ynghylch y gronfa ddata.

11.5 Hefyd, roedd yn amlwg o archwilio cofnodion y gronfa ddata ynghylch arolygiadau safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid na chofnodid manylion arolygiadau, graddio risg a mathau eraill o weithgarwch ar y gronfa ddata yn gywir bob tro. Ni roddwyd y cod cywir i rai gweithgareddau, ac ni chofnodwyd eraill o gwbl, a olygai bod bylchau ac anghywirdebau yn hanes y busnesau cysylltiedig, a chamgymeriadau yn y data ynghylch gweithgareddau gorfodi sy'n ofynnol gan Asiantaeth Safonau Bwyd.

11.6 Roedd swyddogion wedi mynychu cyfarfodydd grwpiau defnyddwyr y gronfa ddata.

11.7 Nid oedd unrhyw weithdrefn ddogfenedig i sicrhau bod cronfa ddata safleoedd bwyd a bwydydd anifeiliaid yr Awdurdod yn gywir ac yn gyfredol. Nid oedd y mesurau a weithredid yn sicrhau bod y gronfa ddata yn gywir ac yn gyfredol.

Argymhelliad

11.8 Dylai'r Awdurdod:

Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefn ddogfenedig i sicrhau bod ei gronfa ddata o safleoedd bwyd a bwydydd anifeiliaid yn gywir ac yn gyfredol. [Y Safon – 11.2]

12 Arolygu a Samplo Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

Hylendid Bwyd

12.1 Roedd gan yr Awdurdod bolisi samplo bwyd dogfenedig a gweithdrefnau dogfenedig ar wahân ar gyfer samplo hylendid bwyd ffurfiol ac anffurfiol. Nodwyd y rhaglen samplo hylendid bwyd flynyddol yn y ddogfen Blaenoriaethau Gwasanaeth ar gyfer Iechyd y Cyhoedd. Sefydlai hyn gyfradd samplo o 2.5 sampl am bob 1000 o'r boblogaeth, gan olygu bod yn rhaid cymryd 137 o samplau hylendid bwyd yn 2004-2005.

12.2 Cynhwysai'r rhaglen samplo hylendid bwyd ar gyfer 2004-2005 gymryd rhan yn Arolwg Basged Siopa Fforwm Microbiolegol Bwyd Cymru, arolygiadau LACORS, arolygiadau a ddyfeisiwyd ac a gydlynwyd gan Grwp Gorchwyl Diogelwch Bwyd De Ddwyrain Cymru, ac arolwg parhaus ASB/NPHS o gywion ieir. Hefyd, bwriadai'r Awdurdod gwblhau ei arolwg peilot o ansawdd y dŵr a ddefnyddid gan werthwyr bwyd symudol.

12.3 Hyfforddwyd aelodau staff o'r tu allan i'r tîm bwyd i gaffael a dogfennu samplau arolygon bwyd anffurfiol, a oedd wedi galluogi'r Awdurdod i gymryd rhan yn y fath arolygon heb effeithio'n andwyol ar lefelau arolygu.

12.4 Archwiliwyd cofnodion naw o samplau hylendid bwyd a gymerwyd yn anffurfiol. Dangosai'r rhain y canolbwyntiodd samplo ar raglen gynlluniedig yr Awdurdod, gan gynnwys bwyd a gynhyrchid yn lleol a chymryd rhan mewn arolygon a gyd-drefnwyd yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

12.5 Cofnodwyd canlyniadau samplau yn gywir ac roeddent ar gael ym mhob achos. Cymerwyd camau priodol dilynol ynghylch y rheiny yr adroddwyd eu bod yn anfoddhaol, gan gynnwys cymryd samplau eraill, ymweliadau â safleoedd ac arolygiadau arnynt, a chydweithio ag Awdurdodau Cartref a Gwreiddiol lle bu'n ofynnol.

12.6 Dangosai cofnodion dau achos ffurfiol o atafaelu a chadw bwyd bod y swyddogion a atafaelodd y bwyd wedi'u hawdurdodi'n gywir, a bod y gweithdrefnau a ddilynwyd yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol.

Safonau Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

12.7 Dogfennwyd polisi a rhaglen 2004-2005 ar gyfer samplo safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid yng Nghynllun Cyflwyno Gwasanaeth Safonau

Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid a Llawlyfr Ansawdd Safonau Masnach. Canolbwyntiai'r rhaglen samplo ar arolygon a gyd-drefnwyd gan awdurdodau lleol Grwp Morgannwg, ac ar fusnesau Awdurdod Cartref. Hefyd, roedd gweithdrefn samplo safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid ddogfenedig.

12.8 Roedd yn amlwg y cynhelid samplo safonau bwyd ar ystod o gynhyrchion a weithgynhyrchid ac a gynhyrchid yn lleol yn unol â'r rhaglen gynlluniedig. Cafwyd cyfranogiad mewn arolygon cyd-drefnedig, a samplo o ran cwynion am fwyd a busnesau a chyfeiriadau Awdurdod Cartref.

12.9 Archwiliwyd cofnodion naw o samplau safonau bwyd. Roedd canlyniadau samplau ar gael ym mhob achos, a chymerwyd camau dilynol priodol o ran y rheiny yr adroddwyd eu bod yn anfoddhaol. Fodd bynnag, ni roddwyd gwybod i fusnesau bob tro pan fyddai canlyniadau'n foddhaol.

12.10 Nodwyd na roddwyd y cod cywir i rai o'r cofnodion ar y gronfa ddata ynghylch samplau cwynion am safonau bwyd.

12.11 Dangosai cofnodion pum sampl bwydydd anifeiliaid bod samplo yn digwydd, er bod y rhain yn ymwneud ag arolwg lleol o liw mewn bwyd cwn. Nid oedd tystiolaeth ynghylch unrhyw samplo diweddar ar fwydydd anifeiliaid a fwriedid ar gyfer anifeiliaid y gadwyn fwyd.

12.12 Penodwyd Dadansoddwr Cyhoeddus, Dadansoddwr Amaethyddol a dirprwyon gan yr Awdurdod, yn unol â phwerau dirprwyedig yr Awdurdod. Fodd bynnag, nid oedd y ddogfennaeth am y penodiadau a oedd ar gael i'r archwilwyr yn ddigonol i ddangos bod gan y bobl a benodwyd gymwysterau priodol.

Argymhelliad

12.13 Dylai'r Awdurdod:

Gael tystiolaeth ddogfennol bod gan ei Ddadansoddwyr Cyhoeddus ac Amaethyddol a benodwyd gymwysterau sy'n bodloni'r holl ofynion cyfreithiol perthnasol. [Y Safon – 12.8]

13 Rheoli ac Ymchwilio i Achosion a Chlefydau Heintus sy'n Ymwneud â Bwyd

13.1 Sefydlodd yr Awdurdod weithdrefn ddogfenedig o ran rheoli achosion o glefydau heintus sy'n ymwneud â bwyd. Datblygwyd y weithdrefn ar y cyd gan yr Awdurdod a sefydliadau perthnasol eraill yn unol ag arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog, ac fe'i hadolygwyd a'i diweddaru yn ddiweddar.

13.2 Ni chafwyd yr un digwyddiad a fodlonai diffiniad achos yn ystod y ddwy flynedd cyn yr archwiliad ac nid oedd y weithdrefn wedi cael ei phrofi.

13.3 Yn ogystal â'r Cynllun Rheoli Achosion, roedd yn ogystal weithdrefn ddogfenedig a gyflwynwyd yn ddiweddar ar gyfer ymchwilio i achosion achlysurol. Roedd hon yn cynnwys cyfres o ffurflenni ymchwilio, llythyrau a thaflenni gwybodaeth i helpu sicrhau y caiff y fath achosion eu hymchwilio'n systematig.

13.4 Dewisodd yr archwilwyr rybuddion o ran 11 achos achlysurol o glefydau heintus sy'n ymwneud â bwyd, i'w harchwilio. O blith y rhain, cofnodwyd un ohonynt yn anghywir gan nad oedd yn achos o glefyd heintus sy'n ymwneud â bwyd, ac ni ellid dod o hyd i un ffeil.

13.5 Cynhwysai cofnodion ynghylch y naw achos a oedd yn weddill rai manylion am yr ymchwiliadau a gynhaliwyd ond, yn gyffredinol, roedd y rhain yn annigonol i bennu a gynhaliwyd ymchwiliad priodol.

13.6 Cydnabu'r archwilwyr y dylai'r weithdrefn ddogfenedig a gyflwynwyd yn ddiweddar ar gyfer ymchwilio i achosion achlysurol ymdrin â'r diffygion hyn.

Argymhelliad

13.7 Dylai'r Awdurdod:

Sicrhau y rhoddir prawf ar y weithdrefn ar gyfer rheoli achosion o glefydau heintus sy'n ymwneud â bwyd fel a fanylwyd. [Y Safon – 13.1]

14 Digwyddiadau Diogelwch Bwyd

14.1 Roedd gan yr Awdurdod system gyfrifiadurol a allai dderbyn Rhybuddion Perygl Bwyd ar ffurf negeseuon e-bost. Anfonwyd y rhain yn electronig at yr holl swyddogion a ymdriniai â gorfodi cyfraith fwyd, ac argraffwyd copi caled a'i gadw mewn prif ffeil.

14.2 Roedd polisi a gweithdrefn dogfenedig i ymdrin â Rhybuddion Perygl Bwyd ac i roi gwybod i Asiantaeth Safonau Bwyd am ddigwyddiadau lleol, er bod angen eu hadolygu a'u diweddaru i gynnwys trefniadau cysylltu y tu allan i oriau gwaith.

14.3 Archwiliwyd cofnodion sawl Rhybudd Perygl Bwyd a gyhoeddwyd gan Asiantaeth Safonau Bwyd yn ystod y 6 mis cyn yr archwiliad. Roedd yn ofynnol i'r Awdurdod weithredu o dan nifer o'r Rhybuddion Perygl Bwyd hyn.

14.4 Roedd cofnodion yr holl Rybuddion Perygl Bwyd a wiriwyd ar gael ar ffurf electronig a chopi caled. Cofnodwyd unrhyw gamau a gymerwyd, a chynhwysid manylion yr holl Rybuddion Perygl Bwyd yng Nghategorïau A, B a C ar wefan yr Awdurdod.

14.5 Cyhoeddwyd datganiadau i'r wasg i ledaenu gwybodaeth am Rybuddion Perygl Bwyd a chynnyrch a elwid yn ei ôl. Roedd y camau a gymerwyd yn briodol ac yn cymryd amgylchiadau a gwybodaeth leol i ystyriaeth.

14.6 Dywedwyd wrth yr archwilwyr na chafwyd unrhyw ddigwyddiadau lleol difrifol neu broblemau diogelwch bwyd ehangach yn ystod y ddwy flynedd diwethaf a fyddai wedi ei gwneud yn ofynnol rhybuddio Asiantaeth Safonau Bwyd yn unol â Chod Ymarfer Rhif 16 y Ddeddf Diogelwch Bwyd: Gorfodi'r Ddeddf Diogelwch Bwyd o ran y System Rhybuddion Diogelwch Bwyd.

Argymhelliad

14.7 Dylai'r Awdurdod:

Estyn ei weithdrefn ddogfenedig ar gyfer ymdrin â Rhybuddion Diogelwch Bwyd i gynnwys trefniadau cysylltu y tu allan i oriau gwaith. [Y Safon – 14.1]

15 Gorfodaeth

15.1 Roedd gan yr Awdurdod Bolisi Gorfodi Diogelwch Bwyd dogfenedig a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Ebrill 2001. Roedd ar gael yn hawdd i aelodau'r cyhoedd a busnesau bwyd, a gellid ei weld ar wefan yr Awdurdod hefyd.

15.2 Hefyd, roedd yr Awdurdod wedi cyflwyno gweithdrefnau dogfenedig ar gyfer ystod y gweithgareddau gorfodi.

15.3 O gofnodion a archwiliwyd, roedd yn amlwg bod swyddogion yn defnyddio cymysgedd o ddewisiadau gorfodi ffurfiol ac anffurfiol yn gyson, gan gynnwys llythyrau, Rhybuddion Gwella, Gwaharddiadau Brys, ac erlyniadau.

15.4 Roedd penderfyniadau gorfodi yn gyson â Pholisi Gorfodi, ac yn cymryd amgylchiadau penodol pob achos i ystyriaeth. Mewn ffeiliau a archwiliwyd gan yr archwilwyr, ymddangosai y gwnaed penderfyniadau cymesur a chywir.

15.5 Archwiliwyd cofnodion pum erlyniad, dau Rybudd Gwahardd Brys, a deg Rhybudd Gwella a'u gwirio yn erbyn Codau Ymarfer y Ddeddf Diogelwch Bwyd ac arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog, polisi gorfodi'r Awdurdod, a gweithdrefnau dogfenedig perthnasol.

15.6 Roedd pedwar erlyniad oherwydd materion hylendid bwyd ac un oherwydd trosedd safonau bwyd. Dogfennwyd y rhain yn gynhwysfawr, ac roedd yn bosibl dangos llwybr archwilio clir o gyflawni trosedd i wrandawiad dilynol mewn llys.

15.7 Awdurdodwyd erlyniadau a'u cychwyn gan swyddogion â chanddynt bwerau dirprwyedig priodol, a dangosai cofnodion y rhoddwyd ystyriaeth ddyledus i ofynion PACE, RIPA a CPIA a'u dogfennu.

15.8 Cyflwynwyd y ddau Rybudd Gwahardd Brys mewn amgylchiadau priodol ac o fewn amserlenni statudol, a bodlonwyd gofynion o ran y cais i'r Llys a rhybudd i'r perchennog.

15.9 Cyflwynwyd Rhybuddion Gwella gan swyddogion â'r awdurdod priodol i wneud hynny, ac roedd yr amgylchiadau'n briodol ym mhob achos. Tystiwyd i hyn gan ffurflenni safonol a gofnodai wybodaeth am berchnogion y busnesau perthnasol, a'r amgylchiadau a arweiniai at gyflwyno'r rhybudd.

15.10 Cofnodwyd y dull o gyflwyno yn y tri achos lle cyflwynwyd rhybuddion â llaw. Fodd bynnag, nodwyd y cyflwynwyd y rhan fwyaf o rybuddion

drwy'r post dosbarth cyntaf, ac na chofnodwyd unrhyw fanylion am y cyflwyniad.

15.11 Roedd tystiolaeth y cymerwyd camau dilynol o ran rhybuddion i sicrhau cydymffurfiad. Fodd bynnag, nodwyd hefyd nad oedd yn arfer gan yr Awdurdod ei wneud yn ofynnol i swyddogion gadarnhau yn ysgrifenedig y cydymffurfiwyd â rhybudd.

Argymhellion

15.12 Dylai'r Awdurdod:

(i) Adolygu a gweithredu ei weithdrefn ddogfenedig yn llawn ar gyfer cyflwyno Rhybuddion Gwella, yn unol â Chod Ymarfer Rhif 5 y Ddeddf Diogelwch Bwyd ac arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog. [Y Safon – 15.2]

(ii) Sicrhau y cynhelir gorfodaeth, o ran Rhybuddion Gwella, yn unol â Chod Ymarfer Rhif 5 y Ddeddf Diogelwch Bwyd ac arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog. [Y Safon – 15.3]

16 Cofnodion ac Adroddiadau Arolygu

16.1 Roedd arolygiadau o dan Reoliadau Diogelwch Bwyd (Hylendid Bwyd yn Gyffredinol) wedi'u dogfennu'n dda, roedd adroddiadau arolygiadau yn gynhwysfawr ac yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol i berchnogion, a chedwid cofnodion arolygu manwl.

16.2 Esboniai adroddiadau arolygu hylendid bwyd yn eglur y mesurau yr oedd angen eu cymryd i sicrhau cydymffurfiad a pham bod eu hangen. Gwahaniaethwyd rhwng gofynion cyfreithiol ac argymhellion, a rhoddwyd cyfeiriadau i ofynion cyfreithiol penodol.

16.3 Hefyd, roedd cofnodion ac adroddiadau arolygu ar sefydliadau a gymeradwywyd o dan reoliadau hylendid bwyd penodol i gynnyrch a siopau cigyddion trwyddedig yn gynhwysfawr ac wedi'u cadw'n dda. Dangosai'r rhain y rhoddwyd sylw manwl i asesu systemau rheoli diogelwch bwyd, ac y cymerwyd camau dilynol lle roeddent yn ofynnol i sicrhau gwelliant a chydymffurfiad.

16.4 Cynhwysai cofnodion ffeil a chofnodion ar y gronfa ddata ffurflenni cais a chofnodion arolygu, a manylion am y busnesau a'r gweithrediadau a wnaed, gan ei wneud yn bosibl pennu bod penderfyniadau i gymeradwyo neu drwyddedu wedi cymryd yr holl feini prawf perthnasol i ystyriaeth.

16.5 Cynhwysai cofnodion safleoedd yr Awdurdod Cartref ar gyfer safonau bwyd broffiliau busnes, disgrifiadau o weithgareddau a wnaed, dyddiadau a chanlyniadau arolygiadau ac ymweliadau, asesiadau o gydymffurfiad â gofynion cyfreithiol, cwynion, manylion a chanlyniadau samplau, a chopïau o ohebiaeth.

16.6 Cedwid cofnodion manwl am weithgarwch samplo hylendid bwyd a safonau bwyd, gan ddangos y targedwyd samplo yn briodol, ac y cymerwyd camau dilynol ynghylch canlyniadau anfoddhaol i bennu rhesymau am fethu a'u datrys.

16.7 Cofnodwyd Rhybuddion Gwella a gweithgareddau gorfodi eraill yn fanwl, gan ddangos y dilynwyd y Polisi Gorfodi ac, yn gyffredinol, y bodlonwyd gofynion statudol.

16.8 Dangosai cofnod yr unig fusnes a gymeradwywyd o dan Reoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Sefydliadau a Chyfryngwyr) 1999 bod yr awdurdod yn bwriadu cynnal gweithgarwch gorfodi ar y cyd â Chymdeithas Fferyllol Frenhinol Prydain Fawr.

16.9 Roedd cofnodion y gronfa ddata heb eu cadw cystal. Rhoddwyd cod swyddog anghywir i rai arolygiadau, a golygai bylchau mewn rhai cofnodion ei fod yn amhosibl pennu a oedd gwybodaeth monitro a anfonwyd at Asiantaeth Safonau Bwyd yn adlewyrchu gweithgareddau gorfodi cyfraith fwyd a bwydydd anifeiliaid yr Awdurdod yn gywir.

Argymhelliad

16.10 Dylai'r Awdurdod:

Sicrhau bod ei gofnodion ar y gronfa ddata ar gyfer yr holl safleoedd bwyd a bwydydd anifeiliaid yn ei ardal yn gyfredol, yn gywir, ac ar ffurf adferadwy.
[Y Safon – 16.1]

17 Cwynion am y Gwasanaeth

17.1 Roedd yr Awdurdod wedi sefydlu a gweithredu Gweithdrefn Gwyno Gorfforaethol.

17.2 Roedd y weithdrefn gorfforaethol ar gael i ddefnyddwyr a busnesau ar wefan yr Awdurdod, ond nid oedd ar gael yn rhwydd i'r cyhoedd a busnesau bwyd o'r Ganolfan Ddinesig.

17.3 Cafwyd un gwyn ffurfiol yn erbyn y gwasanaeth gorfodi cyfraith fwyd yn ystod y ddwy flynedd cyn yr archwiliad.

17.4 Nid oedd yr ymchwiliad i'r gwyn wedi dilyn y weithdrefn gorfforaethol gan iddo gael ei gyflwyno'n uniongyrchol i'r Prif Weithredwr, er y dangosai cofnodion yr ymchwiliwyd iddo'n llawn ac yn briodol ac y rhoddwyd gwybod i'r achwynydd am y canlyniad.

Argymhelliad

17.5 Dylai'r Awdurdod:

Sicrhau bod ei weithdrefn gwyno ddogfenedig, o ran cwynion am y gwasanaeth, ar gael yn rhwydd i'r cyhoedd a busnesau bwyd a bwydydd anifeiliaid yn ei ardal. [Y Safon – 17.1]

18 Cysylltiad â Sefydliadau Eraill

18.1 Roedd gan yr Awdurdod drefniadau cysylltu ag awdurdodau cyfagos a chyrff eraill, gyda'r nod o hwyluso gorfodaeth a oedd yn gyson. Roedd y rhain yn cynnwys cyfranogiad yn y canlynol:

- Grwp Gorchwyl Diogelwch Bwyd De Ddwyrain Cymru;
- Grwp Safonau Masnach Morgannwg;
- Grwp Gorchwyl Clefydau Trosglwyddadwy De Ddwyrain Cymru;
- Grwp Penaethiaid Safonau Masnach Cymru;
- Grwp Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru.

18.2 Cadarnhaodd cofnodion cyfarfodydd grwpiau cyswllt y cafwyd presenoldeb rheolaidd gan gynrychiolwyr priodol y gwasanaethau gorfodi bwyd a bwydydd anifeiliaid.

18.3 Hefyd, roedd gan yr Awdurdod drefniadau i gydweithio ag:

- Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru;
- Cymdeithas Fferyllol Frenhinol Prydain Fawr;
- Gwasanaeth Hylendid Cig;
- Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig;
- Yr Awdurdod Iechyd a chyrff olynol;
- Cydlynwyr Gwasanaethau Rheoleiddiol Awdurdodau Lleol;
- Awdurdodau lleol eraill.

19 Monitro Mewnol

19.1 Er nad oedd gan yr Awdurdod weithdrefn fonitro ddogfenedig, roedd tystiolaeth bod ychydig o fonitro perfformiad meintiol yn cael ei wneud yn Adain Iechyd y Cyhoedd ac Adain Safonau Masnach, gydag adroddiadau monitro chwarterol i'r Aelodau.

19.2 Roedd tystiolaeth bod ychydig o fonitro mewnol yn digwydd o ran gorfodi cyfraith fwyd a bwydydd anifeiliaid. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Adborth gan gwsmeriaid;
- Cyfarfodydd tîm;
- Gwirio ffeiliau a dogfennau;
- Adolygu gohebiaeth;
- Asesu cymhwysedd swyddogion;
- Ymarfer cysondeb hylendid bwyd;
- Arolygiadau cysgod.

19.3 Roedd adolygiadau dogfenedig gan gydradd ar ffeil ar gyfer swyddogion newydd eu penodi a swyddogion newydd gymhwyso yn Adain Iechyd y Cyhoedd. Hefyd, dogfennwyd yr adolygiadau yn erbyn Llawlyfr Ansawdd Safonau Masnach, ond nid oedd yr Awdurdod yn cadw cofnodion am yr holl weithgareddau monitro mewnol yr adroddwyd amdanynt.

Argymhellion

19.4 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefnau monitro mewnol dogfenedig yn unol â Chodau Ymarfer perthnasol y Ddeddf Diogelwch Bwyd ac arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog. [Y Safon – 19.1]

(ii) Gwirio ei gydymffurfiad â holl agweddau perthnasol Y Safon, deddfwriaeth, Codau Ymarfer perthnasol y Ddeddf Diogelwch Bwyd, arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog, a pholisïau a gweithdrefnau dogfenedig yr Awdurdod ei hun. [Y Safon - 19.2]

(iii) Cadw cofnodion am yr holl fonitro mewnol a'u cadw am o leiaf 2 flynedd. [Y Safon – 19.3]

20 Adolygiad gan Drydydd Parti neu Gydradd

20.1 Cyfranogodd y gwasanaeth gorfodi hylendid bwyd yn archwiliad adolygu a chydymffurfiad dogfen rhyng-awdurdod hylendid bwyd Cymru gyfan ym mis Hydref 1999.

20.2 Cyfranogodd y Gwasanaeth Safonau Masnach yn ymarfer archwilio rhyng-awdurdod Safonau Bwyd ac Amaethyddol Penaethiaid Safonau Masnach Cymru yn 2000.

20.3 Hefyd, bu'r Gwasanaeth Safonau Masnach yn destun Adolygiad Gwerth Gorau yn 2002.

20.4 Roedd yr Awdurdod wedi ymrwymo i gyfranogiad parhaus yn y fath ymarferion, fel a brofwyd gan archwiliad Rhyng-Awdurdod Iechyd a Diogelwch sydd ar ddod.

21 Hyrwyddo Diogelwch a Safonau Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

21.1 Dangosodd yr Awdurdod ymrwymiad i hyrwyddo diogelwch a safonau bwyd.

21.2 Roedd tystiolaeth bod yr Awdurdod yn cyfranogi mewn ystod eang o weithgareddau hyrwyddo diogelwch a safonau bwyd, ac roedd cynlluniau am waith pellach yn y maes hwn. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys:

- Hyfforddiant ar hylendid bwyd;
- Cyfranogi yn Wythnos Gwyddoniaeth;
- Wythnos diogelwch bwyd genedlaethol;
- Gwybodaeth ar y we;
- Cyflwyniad i Ynadon lleol;
- Menter addysgu defnyddwyr ysgolion lleol;
- Gwobrau Hylendid Bwyd Cymru;
- Defnyddiwr Ifanc y Flwyddyn.

21.3 Nid oedd tystiolaeth o unrhyw weithgarwch hyrwyddo o ran bwydydd anifeiliaid.

Argymhelliad

21.4 Dylai'r Awdurdod:

Estyn ei weithgarwch hyrwyddo i gynnwys bwydydd anifeiliaid.
[Y Safon – 21.1]

Archwilwyr: **Jane Davies**
Rob Wilkins
Lindsay Horth
Keith Blake
Tony Wheale

Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru
Llawr 11
Ty Southgate
Stryd Wood
Caerdydd
CF10 1EW

ATODIAD

Geirfa

Dadansoddwr Amaethyddol	Rhywun, â chanddo'r cymwysterau rhagnodedig, a benodir yn ffurfiol gan awdurdod lleol i ddadansoddi samplau bwydydd anifeiliaid.
Safleoedd cymeradwy	Safle gweithgynhyrchu bwyd a gymeradwyir gan yr awdurdod lleol, yng nghyd-destun deddfwriaeth benodol, ac y rhoddir cod adnabod unigryw iddo sy'n berthnasol mewn masnach genedlaethol a/neu ryngwladol.
Swyddog awdurdodedig	Swyddog cymwys addas a awdurdodir gan yr awdurdod lleol i weithredu ar ei ran wrth, er enghraifft, orfodi deddfwriaeth.
Gwerth Gorau *	Polisi Llywodraethol â'r nod o wella perfformiad llywodraeth leol wrth ddarparu gwasanaethau i gymunedau lleol – o addysg a gofal i'r henoed, i iechyd yr amgylchedd a chynnal ffyrdd. Nod Gwerth Gorau yw sicrhau bod lefel cost ac ansawdd y gwasanaethau hyn yn dderbyniol i bobl leol trwy: • gynyddu rôl pobl leol wrth benderfynu blaenoriaethau gwasanaethau llywodraeth leol • gwella'r ffordd y mae awdurdodau'n rheoli ac yn adolygu eu busnes • adeiladu ar brofiad ac arbenigedd staff. * Yng Nghymru, disodlwyd hyn yn ddiweddar gan Raglen Cymru ar gyfer Gwella
Arolygfeydd Ffin	Man dyfod i'r DU o wledydd y tu allan i'r UE i gynnyrch sy'n deillio o anifeiliaid.
Codau Ymarfer	Codau Ymarfer y Llywodraeth a gyhoeddir o dan Adran 40 Deddf Diogelwch Bwyd 1990 yn arweiniad i awdurdodau lleol ynghylch gorfodi deddfwriaeth bwyd.
Concordat Gorfodi	Arweiniad gan y Llywodraeth sy'n nodi egwyddorion a gweithdrefnau gorfodaeth dda y gall awdurdodau lleol eu mabwysiadu. Fe'i datblygwyd mewn ymgynghoriad â busnesau, llywodraeth leol a chanolog, grwpiau defnyddwyr a phartïon eraill sydd

	â diddordeb. Mae'n nodi'r hyn y gall busnesau ac eraill sy'n cael eu rheoleiddio ei ddisgwyl gan swyddogion gorfodi.
Swyddog Iechyd yr Amgylchedd (SIA)	Swyddog a gyflogir gan yr awdurdod lleol i orfodi deddfwriaeth diogelwch bwyd.
Bwydydd Anifeiliaid	Term a ddefnyddir mewn deddfwriaeth i ddisgrifio cymysgeddau bwyd i anifeiliaid fferm ac anifeiliaid anwes.
Archwiliwr Bwyd	Person â'r cymwysterau rhagnodedig sy'n cynnal dadansoddiadau microbiolegol ar ran yr awdurdod lleol.
Rhybuddion Perygl Bwyd	Mae hwn yn system a weithredir gan Asiantaeth Safonau Bwyd i rybuddio'r cyhoedd ac awdurdodau lleol am broblemau cenedlaethol neu ranbarthol o ran diogelwch bwyd.
Hylendid bwyd	Y gofynion cyfreithiol sy'n cynnwys diogelwch ac iachusrwydd bwyd.
Safonau bwyd	Y gofynion cyfreithiol sy'n cynnwys ansawdd, cyfansoddiad, labelu, cyflwyniad a hysbysebu bwyd, a deunyddiau sy'n dod i gysylltiad â bwyd.
Cytundeb Fframwaith	Mae'r Cytundeb Fframwaith yn cynnwys: • Safon Gorfodi Cyfraith Fwyd • Arweiniad ar Gynllunio Gwasanaeth • Cynllun Monitro • Cynllun Archwilio Mae'r **Safon** a'r **Arweiniad ar Gynllunio Gwasanaeth** yn nodi disgwyliadau'r Asiantaeth ynghylch cynllunio a darparu gorfodaeth cyfraith fwyd. Mae'r **Cynllun Monitro** yn ei wneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyflwyno ffurflenni chwarterol i'r Asiantaeth am eu gweithgareddau gorfodi bwyd h.y. nifer yr arolygiadau, samplau ac erlyniadau. O dan y **Cynllun Archwilio** bydd Asiantaeth Safonau Bwyd yn archwilio gwasanaethau gorfodi cyfraith fwyd awdurdodau lleol yn ôl y meini prawf a

	nodwyd yn y Safon.
Ffigur Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE)	Ffigur sy'n cynrychioli'r rhan hwnnw o amser swyddog unigol sydd ar gael ar gyfer swyddogaeth neu gyfres o ddyletswyddau penodol. Mae'n adlewyrchu'r ffaith y gall unigolion fod yn gweithio'n rhan amser, neu y gall fod ganddynt gyfrifoldebau eraill yn y sefydliad nad ydynt yn gysylltiedig â gorfodaeth fwyd.
HACCP	Pwynt Rheoli Critigol ar gyfer Dadansoddi Peryglon – system rheoli diogelwch bwyd a ddefnyddir mewn busnesau bwyd i nodi pwyntiau yn y broses gynhyrchu lle mae'n hanfodol i ddiogelwch bwyd y cynhelir y mesur rheoli yn gywir, a thrwy hynny ddileu neu leihau'r perygl i lefel sy'n ddiogel.
Awdurdod Cartref	Awdurdod lle ceir sylfaen benderfynu berthnasol menter, ac sydd wedi cymryd cyfrifoldeb am gynghori'r busnes hwnnw ynghylch materion yn ymwneud â diogelwch bwyd/safonau bwyd. Mae'n gweithredu fel y pwynt cyswllt canolog ar gyfer ymholiadau awdurdodau gorfodi eraill, o ran polisïau a gweithdrefnau'r cwmni hwnnw sy'n gysylltiedig â bwyd.
Rhybudd Gwella	Rhybudd a gyflwynir gan Swyddog Awdurdodedig yr awdurdod lleol o dan Adran 10 Deddf Diogelwch Bwyd 1990, sy'n ei gwneud yn ofynnol i berchennog busnes bwyd wneud gwaith addas i sicrhau bod y busnes yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaeth hylendid bwyd neu brosesu bwyd.
Archwilio Rhyng-Awdurdod	System lle gall awdurdodau lleol archwilio gwasanaethau gorfodi cyfraith fwyd ei gilydd yn erbyn safon ansawdd a gytunwyd.
Fforwm aelodau	Fforwm awdurdod lleol lle mae Aelodau'r Cyngor yn trafod ac yn penderfynu ar wasanaethau gorfodi cyfraith fwyd.
Ffurflenni CSRhB	Ffurflenni am weithgareddau gorfodi cyfraith fwyd lleol y mae'n ofynnol eu dychwelyd i'r Undeb Ewropeaidd o dan y Gyfarwyddeb Swyddogol Rheoli Bwydydd.

Awdurdod Gwreiddiol	Awdurdod y mae busnes, yn ardal yr Awdurdod hwnnw, yn cynhyrchu neu'n pecynnu nwyddau neu wasanaethu ac y mae'r Awdurdod yn gweithredu yn bwynt cyswllt canolog iddo o ran ymholiadau gan awdurdodau gorfodi eraill am y cynhyrchion hynny.
Awdurdod Iechyd Porthladd	Awdurdod lleol y ceir, oddi mewn i'w ffiniau, bwynt mynediad i'r DU ar gyfer bwydydd a fewnforir.
Dadansoddwr Cyhoeddus	Swyddog, â chanddo'r cymwysterau rhagnodedig, a benodir yn ffurfiol gan yr awdurdod lleol i ddadansoddi samplau bwyd yn gemegol.
Graddio risg	System sy'n graddio safleoedd bwyd yn ôl y risg ac yn pennu pa mor aml y dylid arolygu'r safleoedd hynny. Er enghraifft, dylid arolygu safleoedd hylendid uchel eu risg, o leiaf unwaith bob 6 mis.
Cynllun Gwasanaeth	Dogfen a gynhyrchir gan awdurdod lleol sy'n nodi ei gynlluniau ynghylch darparu a chyflwyno gwasanaeth bwyd i'r gymuned leol.
Safonau Masnach	Yr Adran o fewn awdurdod lleol sydd, ymysg cyfrifoldebau eraill, yn gorfodi deddfwriaeth safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid.
Swyddog Safonau Masnach (SSM)	Swyddog a gyflogir gan yr awdurdod lleol sydd, ymysg cyfrifoldebau eraill, yn gallu gorfodi deddfwriaeth safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid.
Awdurdod Unedol	Awdurdod lleol lle cyfunir yr holl swyddogaethau, er enghraifft Awdurdodau Cymreig a Bwrdeistrefi yn Llundain. Bydd cyfrifoldebau Awdurdod Unedol yn cynnwys gorfodaeth hylendid bwyd, safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid.